**Rhif:** WG 34587

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion

# Cod Trefniadaeth Ysgolion

Dyddiad cyhoeddi: 2 Gorffennaf 2018

© Hawlfraint y Goron 2018 ISBN Digidol 978-1-78937-072-0

# Cod Trefniadaeth Ysgolion

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Awdurdodau lleol; cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; awdurdodau esgobaethol; Estyn, ac eraill â buddiant. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn crynhoi safbwyntiau yn ymwneud ag ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. |
| **Camau gweithredu gofynnol** | Dim. Er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Os oes gennych chi gwestiwn am y ddogfen hon, cysylltwch ag:<br>Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Ffôn: 03000 622017/03000 251733<br><br>e-bost:SchoolsManagementDivision3@llyw.Cymru |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: https://beta.llyw.cymru/ymgynghoriadau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013<br>Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013<br>Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru |

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Crynodeb o ymatebion a dderbyniwyd | 5 |
| Cwestiwn 1 | 6 |
| Cwestiwn 2 | 6 |
| Cwestiwn 3 | 7 |
| Cwestiwn 4 | 7 |
| Cwestiwn 5 | 9 |
| Cwestiwn 6 | 10 |
| Cwestiwn 7 | 11 |
| Cwestiwn 8 | 12 |
| Cwestiwn 9 | 15 |
| Cwestiwn 10 | 16 |
| Cwestiwn 11 | 17 |
| Cwestiwn 12 | 17 |
| Cwestiwn 13 | 20 |
| Rhestr o ymatebwyr | 24 |
| Atodiad | 26 |

# Cyflwyniad

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'r Cod yn cyflwyno gofynion y mae'n rhaid i gyrff perthnasol (Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a hyrwyddwyr eraill) weithredu yn unol â hwy. Hefyd, mae'n cynnwys canllawiau ymarferol y mae'n rhaid i gyrff perthnasol eu hystyried, ac mae'n cyflwyno'r cyd-destun polisi, yr egwyddorion cyffredinol a'r ffactorau sydd angen eu hystyried gan y rhai sy'n cyflwyno cynigion i ad-drefnu darpariaeth ysgolion a'r rhai sy'n gyfrifol am lunio cynigion.

Daeth y Cod Trefniadaeth Ysgolion presennol i rym ar 1 Hydref 2013. Ar ôl tair blynedd o weithredu, mae'r Cod wedi'i adolygu, gan fyfyrio ar adborth a dysgu yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r rhan fwyaf o newidiadau arfaethedig yn darparu eglurder lle bo hynny'n berthnasol. Nod y newidiadau arfaethedig eraill yw cryfhau'r Cod, er enghraifft trwy ofyn am gyhoeddi dogfennau ymgynghori ar ddiwrnod ysgol. Trafodwyd y newidiadau hyn yn anffurfiol ag awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaethol, a gofynnwyd am eu safbwyntiau ar y newidiadau hyn ac ar unrhyw newidiadau gofynnol eraill.

Yn ogystal â'r newidiadau hyn, y cynnig mwyaf arwyddocaol yw cryfhau'r Cod mewn perthynas â rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig. Nid yw rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yn golygu na fydd ysgolion gwledig byth yn cau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r achos dros gau ysgol fod yn gryf, ac ni ddylid gwneud penderfyniad o'r fath heb ystyried pob opsiwn.

Rhaid i awdurdodau lleol a chynigwyr eraill gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac unrhyw elfennau gorfodol yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion, a rhaid iddynt ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth gynnig gwneud newidiadau mawr i ysgolion, gan roi'r sylw pennaf i fuddiannau dysgwyr. Ar hyn o bryd, nid oes yna ragdybiaeth o blaid nac yn erbyn cau unrhyw fath o ysgol. Mae'r Cod presennol yn cydnabod mai prif ddiben ysgolion yw darparu addysg ac y dylai unrhyw achos dros gau ysgol fod yn gadarn ac er budd pennaf darpariaeth addysg yn yr ardal. Fodd bynnag, mae'r Cod presennol yn cydnabod hefyd y gall ysgol fod yn brif ganolbwynt gweithgarwch cymunedol mewn ardaloedd gwledig ac y gallai cau'r ysgol gael goblygiadau y tu hwnt i ddarpariaeth addysg, yn enwedig os yw adeiladau'r ysgol yn cael eu defnyddio fel lle i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol.

Bwriadwn gryfhau hyn drwy gyflwyno rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig. Mae'r cynigion ar gyfer rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig a oedd yn destun ymgynghoriad yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng dymuniadau a phryderon dilys cymunedau gwledig a rhieni â chyfrifoldebau awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Wrth ystyried a yw'n briodol cau ysgol, mae'r Cod presennol yn nodi y dylid rhoi sylw arbennig i ddewisiadau amgen i gau ysgol ac, wrth ymgynghori ar gynigion, bod yn rhaid i'r ddogfen ymgynghori gynnwys disgrifiad o unrhyw ddewisiadau amgen a ystyriwyd a'r rhesymau dros eu gwrthod. Credwn y dylai'r broses o ystyried pob opsiwn fod yn broses dau gam. Dylai'r cynigiwr wneud hyn cyn penderfynu ymgynghori ar gynnig i gau ysgol, a dylai hefyd ystyried unrhyw opsiynau neu awgrymiadau eraill sy'n codi yn ystod y broses ymgynghori. Y nod yw sicrhau bod y penderfyniad i gynnig cau ysgol wledig ac ymgynghori ar y bwriad hwnnw ond yn cael ei wneud ar ôl i bob opsiwn arall gael ei ystyried, gan

gynnwys ffedereiddio. Credwn y bydd y newid hwn yn arwain at system fwy agored a thryloyw; bydd yr ymgynghoriad yn cael ei lywio gan esboniad clir o pam mae'r cynigiwr wedi penderfynu cynnig cau'r ysgol, a bydd y wybodaeth gefndir sy'n sail i'r penderfyniad hwnnw wedi'i hamlinellu'n glir. Bydd cynigwyr wedi bod yn ystyried ers amser maith a ddylid symud ymlaen i ymgynghori ar y cynnig i gau ysgol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y cynigiwr yn dangos ei fod yn agored i syniadau, awgrymiadau a chynigion newydd sy'n codi o'r ymgynghoriad ac nad yw'r penderfyniad terfynol y bydd y cynigiwr yn ei wneud wedi'i wneud yn barod.

Er mwyn datblygu rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, mae angen diffinio ysgolion gwledig at y diben hwn. Felly, gofynnodd yr ymgynghoriad am safbwyntiau ar ddynodiad priodol o ysgolion gwledig gan ddefnyddio Dosbarthiad Ystadegau Gwladol o Trefol-Gwledig.

Mae'r Cod yn cydnabod mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod digon o ysgolion yn darparu addysg gynradd ac uwchradd ar gyfer eu hardal. Ystyrir bod ysgolion yn ddigonol os ydynt yn ddigonol o ran nifer, cymeriad a chyfarpar i roi cyfle i bob disgybl gael addysg briodol. Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cynllunio'n drylwyr ar gyfer ysgolion sy'n gwasanaethu eu hardaloedd. Mae'r Cod yn cydnabod hefyd mai addysg yw'r ystyriaeth bennaf. Mae hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â dyletswydd awdurdod lleol i geisio codi safonau addysg.

Yr ystyriaethau hyn sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried ffactorau ehangach megis yr angen i reoli ystâd yr ysgol mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Mae hyn yn cynnwys rheoli'r niferoedd gormodol o leoedd gwag sy'n cyfyngu adnoddau mewn ffordd anghynhyrchiol – adnoddau nad ydynt ar gael i'w defnyddio i godi safonau ac ansawdd addysg i bob disgybl o ganlyniad i hynny. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddynt geisio lleihau'r niferoedd gormodol o leoedd gwag mewn ysgolion. Er bod y Cod yn annog awdurdodau lleol i reoli lleoedd gwag, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu cau ysgolion. Mae'r Cod yn eu hannog i archwilio opsiynau eraill, gan gynnwys cydweithredu neu ffedereiddio, cynyddu'r defnydd cymunedol o adeiladau ysgol neu gydleoli gwasanaethau lleol yn yr ysgol i wrthbwyso costau.

# 1. Crynodeb o Ymatebion a dderbyniwyd

Cynhaliwyd ymgynghoriad 14 wythnos rhwng 30 Mehefin 2017 a 30 Medi 2017. Daeth cyfanswm o 70 o ymatebion i law gan amrywiaeth gynrychioladol eang o randdeiliaid allweddol gan gynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, cyrff llywodraethu ysgolion, rhieni ac unigolion, undebau addysgu, cynghorau cymuned a thref, Estyn ac eraill. Mae rhestr lawn o ymatebwyr wedi'i chynnwys yn atodiad 1. Roedd rhai ymatebwyr yn dymuno aros yn ddienw, ac mae eu dymuniad wedi'i barchu gydol yr adroddiad cryno hwn.

Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi defnyddio'r ffurflen ar-lein i ymateb i'r ymgynghoriad, ymatebodd nifer fach ar ffurf llythyr. O ganlyniad, nid yw pob cwestiwn wedi'i ateb gan bob ymatebwr. Fodd bynnag, mae ymateb naratif wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad cryno hwn trwy neilltuo sylwadau a wnaed i'r cwestiwn mwyaf priodol.

Gofynnodd y ddogfen ymgynghori 13 cwestiwn er mwyn holi am safbwyntiau yn ymwneud â diwygiadau arfaethedig i'r Cod. Gofynnwyd dau gwestiwn penodol (cwestiwn 11 ac 12) er mwyn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg ar gyfer llunio polisïau. Mae

dadansoddiad o ymatebion i bob cwestiwn wedi'i gynnwys isod. Oni nodir yn wahanol, mynegir canrannau fel mesur o ymatebwyr i bob cwestiwn gydol yr adroddiad hwn.

**Cwestiwn 1**

**Ydych chi'n cytuno â'r gwelliannau a awgrymwyd ar gyfer y Cod er mwyn adlewyrchu adborth a dysgu ar ôl tair blynedd o weithredu?**

| Cytuno | Anghytuno | Nid yn cytuno neu'n anghytuno | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 5 | 4 | 47 |
| 81% | 11% | 8% | 100% |

## Crynodeb o Ymatebion

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â'r gwelliannau a awgrymwyd. Roedd un yn cwestiynu a yw cyfnodau amser a nodwyd ar gyfer teithiau dysgwyr yn y cod presennol yn berthnasol o hyd.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid yw Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn pennu terfyn amser ar gyfer teithiau. Fodd bynnag, mae Adran 2 o'r Mesur yn nodi bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i asesu anghenion teithio pob dysgwr yn eu hardal. Nid yw Canllawiau ar Ddarpariaethau Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol 2014 (sy'n disodli Canllawiau 2009) yn cyfeirio at derfynau amser penodol ar gyfer teithiau, gan fod pennu terfynau o'r fath yn arfer cyffredin gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol yn hytrach nag yn ofyniad statudol.

Lle cynigir cau ysgol, lleihau ei chapasiti neu leihau ei hystod oedran, mae'r Cod presennol yn argymell y dylai cyrff perthnasol ystyried natur siwrneiau i ddarpariaeth amgen ac amseroedd teithio i ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion AAA; yn enwedig os bydd disgyblion ysgol gynradd yn gorfod teithio am dros 45 munud un ffordd neu ddisgyblion ysgol uwchradd yn gorfod teithio am dros awr un ffordd. Er nad yw'r canllawiau yn ofyniad statudol, rydym yn credu eu bod yn ddefnyddiol ac felly rydym yn cynnig eu cadw yn y Cod diwygiedig.

**Cwestiwn 2**

**Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i'w gwneud hi'n ofynnol i'r ddogfen ymgynghori gael ei chyhoeddi ar ddiwrnod ysgol?**

| Cytuno | Anghytuno | Nid yn cytuno neu'n anghytuno | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 3 | 0 | 48 |
| 94% | 6% | 0% | 100% |

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn. Cafwyd cytundeb cyffredinol y byddai cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar ddiwrnod ysgol yn cryfhau'r gofyniad presennol i gyhoeddi'r ddogfen ymgynghori yn ystod y tymor a rhoi cyfle i bobl ymgysylltu'n llawn. Fodd bynnag, gofynnodd sawl ymatebydd am eglurhad o ddiffiniad diwrnod ysgol. Awgrymodd un

ymatebydd y dylai'r Cod ei gwneud yn glir bod diwrnod ysgol yn berthnasol i ddiwrnod ysgol 'yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio'.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r Cod presennol yn datgan bod **rhaid** cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori yn ystod tymor yr ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt a **rhaid** i ymgyngoreion gael o leiaf 42 diwrnod i ymateb i'r ddogfen gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Bydd y gofyniad i gyhoeddi dogfennau ymgynghori ar ddiwrnod ysgol yn cryfhau'r gofyniad hwn, gan sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol, gan gynnwys rhieni ac athrawon, yn ymwybodol o'r cynnig mor gynnar â phosibl, a bod ganddynt gymaint o amser â phosibl i ystyried y cynnig ac ymateb iddo.

Mae adran 579 o Ddeddf Addysg 1996 yn diffinio diwrnod ysgol fel unrhyw ddiwrnod mewn ysgol lle y cynhelir sesiwn ysgol. Gall sesiwn ysgol fod yn sesiwn fore neu'n sesiwn brynhawn, felly mae diwrnod ysgol yn unrhyw ddiwrnod pan fydd yr ysgol yn cyfarfod am y diwrnod cyfan neu am ran o'r diwrnod. Bydd y Cod diwygiedig yn nodi'n glir, o ran y gofyniad cyhoeddi dogfennau ymgynghori, nad yw diwrnod ysgol yn cynnwys diwrnod hyfforddiant mewn swydd a bod y cyfeiriad at ddiwrnod ysgol yn berthnasol i'r ysgolion sy'n cael eu heffeithio.

**<u>Cwestiwn 3</u>**

**Ydych chi'n cytuno y dylai ymgyngoreion gael gwybod pan fydd y ddogfen ymgynghori ar gael, gan gynnwys y cyfeiriad gwe, ac y gallant gael copi caled ar gais?**

| Cytuno | Anghytuno | Nid yn cytuno neu'n anghytuno | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 1 | 1 | 47 |
| 96% | 2% | 2% | 100% |

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn. Nododd un ymatebydd y byddai hyn yn dileu baich ariannol a logistaidd sylweddol ar awdurdodau lleol gan na fyddai'n rhaid iddynt ddarparu copi caled o ddogfennau ymgynghori i bob ymgynghorai statudol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn ei ystyried yn rhesymol i'w gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n cyflwyno cynigion hysbysu ymgyngoreion am argaeledd y ddogfen ymgynghori, gan gynnwys y cyfeiriad gwe, ac y gallant gael copi caled ar gais.

**<u>Cwestiwn 4</u>**

**Ydych chi'n cytuno bod rhaid i'r rhai nad ydynt yn cynnal yr ymgynghoriadau eu hunain ystyried i ba raddau mae'r cynnig a'r ymgynghoriad statudol wedi'u cynnal yn unol â'r Cod?**

| Cytuno | Anghytuno | Nid yn cytuno neu'n anghytuno | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 3 | 4 | 47 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 85% | 6% | 9% | 100% |

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn. Fodd bynnag, roedd rhai o'r sylwadau o blaid y cynnig yn dangos nad oedd rhai ymatebwyr wedi deall y cynnig yn llawn a bod angen esboniad pellach.

- *Byddai hyn yn cyflwyno gofyniad ychwanegol neu fecanwaith amgen i broses y cyngor o wneud penderfyniadau gan gabinet y Cyngor.*
- *Mae angen rhagor o wybodaeth am ddiffiniad "y rhai nad ydynt yn cynnal yr ymgynghoriad eu hunain".*
- *Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cymeradwyo a phenderfynu cynigion trefniadaeth ysgolion? A oes modd egluro neu ddiffinio hyn?*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Diben y gwelliant hwn yw gwahaniaethu rhwng cyfrifoldebau presennol y cyrff perthnasol (Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion sefydledig a chynigwyr eraill) wrth sicrhau bod ymgynghoriadau a chynigion yn cydymffurfio â'r Cod. Mae esboniad manylach o'r cynnig wedi'i nodi isod.

Yn sgil y newidiadau i ail argraffiad drafft y Cod, mae'n <u>rhaid</u> i gorff llywodraethu neu awdurdod lleol sy'n <u>cymeradwyo</u> cynnig sicrhau bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal a bod yr hysbysiad wedi'i gyhoeddi yn unol â'r Cod. Hefyd, mae'n <u>rhaid</u> i awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru sy'n <u>penderfynu</u> ar gynnig <u>ystyried i ba raddau</u> y mae'r ymgynghoriad wedi'i gynnal ac i ba raddau y mae'r hysbysiad wedi'i gyhoeddi yn unol â'r Cod.

Mae ail argraffiad drafft y Cod yn cydnabod os mai corff llywodraethu neu awdurdod lleol sy'n gwneud y cynnig a bod ganddynt swyddogaeth i <u>gymeradwyo'r</u> cynnig, gallant <u>sicrhau</u> bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal a bod yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi yn unol â'r Cod. Fodd bynnag, nid awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru sy'n <u>penderfynu</u> ar y cynnig sy'n gwneud y cynnig, nid ydynt yn gyfrifol am gynnal yr ymgynghoriad ac ni allant sicrhau bod y sawl sy'n gwneud y cynnig wedi gweithredu yn unol â'r Cod, ond gallant <u>ystyried i ba raddau</u> y mae wedi cynnal yr ymgynghoriad yn unol â'r Cod.

Wrth gymeradwyo neu benderfynu ar gynigion, mae adran 1.14 o'r Cod presennol yn nodi bod yn rhaid i gyrff perthnasol *[Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a hyrwyddwyr eraill]:*

- *sicrhau bod yr ymgynghoriad statudol wedi'i gynnal yn unol â'r Cod hwn;*
- *sicrhau bod y cynnig wedi'i gyhoeddi yn unol â'r Cod hwn a bod yr hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol;*

Mae adran 1.15 o ail argraffiad drafft y Cod yn gwahanu ac yn egluro cyfrifoldebau'r rhai sy'n cymeradwyo cynigion a'r rhai sy'n penderfynu ar gynigion fel a ganlyn:

*Wrth <u>gymeradwyo</u> cynigion, <u>rhaid</u> i'r cyrff perthnasol sy'n eu cynnig:*

- *<u>Sicrhau</u> bod yr ymgynghoriad statudol wedi'i gynnal yn unol â'r Cod (nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i gau ysgol sy'n ysgol fach);*
- *<u>Sicrhau</u> bod y cynnig wedi'i gyhoeddi yn unol â'r Cod hwn a bod yr hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol;*

*Wrth <u>benderfynu</u> ar gynigion, <u>rhaid</u> i'r cyrff perthnasol:*

- *Ystyried i ba raddau y mae'r ymgynghoriad statudol wedi'i gynnal yn unol â'r Cod hwn (nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i gau ysgol sy'n ysgol fach);*
- *Ystyried i ba raddau y mae'r cynnig wedi'i gyhoeddi yn unol â'r Cod hwn ac a yw'r hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol;*

**Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cymeradwyo a phenderfynu ar gynigion?**

Mae'r rhan fwyaf o gynigion a gyflwynir gan gorff llywodraethu nad ydynt yn cael eu gwrthwynebu yn cael eu penderfynu gan y corff llywodraethu ac maent yn perthyn i'r categori cymeradwyo. Mae'r rhan fwyaf o gynigion a gyflwynir gan gorff llywodraethu sy'n destun gwrthwynebiad yn cael eu penderfynu gan bwyllgor gweithredol yr awdurdod lleol perthnasol ac maent yn perthyn i'r categori penderfynu.

Mae'r rhan fwyaf o gynigion a gyflwynir gan awdurdod lleol, waeth a ydynt yn destun gwrthwynebiad ai peidio, yn cael eu penderfynu gan bwyllgor gweithredol yr awdurdod lleol perthnasol ac maent yn perthyn i'r categori cymeradwyo.

Ar gyfer nifer fach o gynigion, mae angen cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru o dan Adran 50 o Ddeddf 2013 (cynigion sy'n effeithio ar addysg chweched dosbarth a chynigion a gyflwynir gan gorff heblaw'r awdurdod lleol perthnasol, a chynigion lle mae'r awdurdod lleol hwnnw wedi cyflwyno gwrthwynebiad). Mae'r cynigion hyn yn cael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru ac maent yn perthyn i'r categori penderfynu.

**Cwestiwn 5**

**Ydych chi'n cytuno y dylai fod yna ragdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig?**

| Cytuno | Anghytuno | Nid yn cytuno neu'n anghytuno | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 7 | 3 | 47 |
| 79% | 15% | 6% | 100% |

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno y dylai fod yna ragdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Roedd hyn yn cynnwys wyth awdurdod lleol, pum ohonynt yn rhai gwledig yn bennaf. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Bod hyn yn cyd-fynd â phenderfyniadau diweddar a wnaed gan y cyngor i beidio â bwrw ymlaen i gau darpariaeth ysgolion a mwy o ffocws gan y cyngor ar fodelau eraill fel cydweithio, ffedereiddio ac uno.
- Mae'r awdurdod bob amser yn blaenoriaethu ansawdd addysg fel y prif ffactor ond mae eisoes yn ystyried ffactorau lleol yn cynnwys natur wledig llawer o ysgolion y Sir.

Roedd un ymatebydd a gytunodd yn pwysleisio na ddylai rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig olygu nad yw rhai ysgolion yn cau, gan fod cau ysgolion wedi bod er budd pennaf y gymuned mewn rhai achosion gan arwain at ddarpariaeth well yn yr hirdymor.

Er bod un awdurdod lleol wedi dweud ei fod yn cytuno â'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, teimlai y gallai hynny olygu bod ardaloedd gwledig yn llai tebygol o allu manteisio ar Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif oherwydd bod yr ysgolion yno yn rhai bach.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nid yw rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yn golygu na fydd ysgolion gwledig byth yn cau, ond mae'n rhaid i'r achos dros gau'r ysgol fod yn un cryf ac mae'n rhaid ystyried pob opsiwn arall, gan gynnwys ffedereiddio. Mae'r Cod presennol ac ail fersiwn arfaethedig y Cod yn nodi'n glir y dylai cyrff perthnasol roi buddiannau dysgwyr uwchlaw popeth arall, gan sicrhau mai ansawdd a safonau addysg yw'r brif ystyriaeth. Fodd bynnag, mae'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yn cydnabod y gall cau ysgol wledig gael effaith y tu hwnt i ddarparu addysg.

O safbwynt cyllid Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, nid oes unrhyw derfyn ar faint ysgol sy'n gallu manteisio ar y cyllid. Awdurdodau lleol sy'n penderfynu pa gynigion y maent am eu cyflwyno i ddiwallu anghenion eu hardal.

**<u>Cwestiwn 6</u>**

**Ydych chi'n cytuno â'r gyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion y bydd angen i gynigwyr eu dilyn wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig ac wrth ymgynghori ar y cynnig a dod i benderfyniad ynghylch a ddylid rhoi'r cynnig i gau ysgol wledig ar waith?**

| Cytuno | Anghytuno | Nid yn cytuno neu'n anghytuno | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 6 | 6 | 47 |
| 74% | 13% | 13% | 100% |

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn, gydag un awdurdod gwledig yn bennaf yn dweud, "*Rydym yn croesawu unrhyw weithdrefn dryloyw sy'n dangos i randdeiliaid bod yr holl opsiynau eraill wedi'u hystyried yn deg cyn y penderfyniad i gau. Fodd bynnag, nid ydym yn teimlo y bydd unrhyw nifer o ofynion ymgynghori ychwanegol yn gwneud penderfyniadau o'r fath yn llai dadleuol.*

Nododd sawl awdurdod lleol gwledig yn bennaf fod ganddynt brosesau cadarn ar waith eisoes ar gyfer cynigion i gau ysgolion gwledig:

- *Mae'r broses rydym yn ei defnyddio i adolygu ysgolion gwledig eisoes yn gymharol debyg i'r camau a amlinellir.*
- *Mae'r cyngor yn hyderus ei fod eisoes yn dilyn prosesau ymgysylltu cynhwysfawr trwy sicrhau mewnbwn lleol i'r broses o ddatblygu ac ystyried unrhyw gynlluniau strategol.*
- *Nid yw cynigion yn cael eu llunio heb resymau penodol a chlir, ac nid ydynt yn cael eu hystyried yn y broses o wneud penderfyniadau heb nodi'r rhesymau hyn yn glir. Rydym yn ystyried opsiynau eraill eisoes, ond rydym yn croesawu'r pwyslais ychwanegol yn y Cod.*

Awgrymodd sawl ymatebydd y dylai'r gyfres fanwl o weithdrefnau a gofynion fod yn berthnasol i bob cynnig i gau ysgol.

- *Er ein bod yn cytuno â'r egwyddor, rydym yn credu y dylai'r un broses gael ei defnyddio ar gyfer ysgolion o bob math, waeth beth yw eu maint na'u lleoliad.*
- *Yn ein barn ni, dylai'r broses y mae'n rhaid i'r cynigydd ei ddilyn wrth benderfynu a oes angen ymgynghori ar gau ysgol fod yn berthnasol i gynigion i gau ysgolion o bob math.*
- *Ni ddylai ysgolion bach a gwledig gael eu trin yn fwy ffafriol nag ysgolion eraill yn ein barn ni. Felly, byddem yn hapus i weld y gweithdrefnau manylach yn cael eu cymhwyso i gynigion o bob math.*

Fodd bynnag, fel y nododd un ymatebydd: "*Mae angen ystyried pob cynnig i gau ysgol yn llawn ac yn ofalus. Fodd bynnag, oherwydd yr effaith gymdeithasol ac ehangach sy'n gallu deillio o gau ysgol wledig, mae angen craffu'n fanylach ar y broses. Rhaid cofio bod cau ysgol wledig yn gallu cael effaith sylweddol y tu hwnt i'r grŵp rhanddeiliaid uniongyrchol.*"

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae cyflwyno rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yn cydnabod bod cau ysgol wledig yn gallu cael effaith sylweddol y tu hwnt i ddarpariaeth addysg. O ganlyniad, er ein bod yn ystyried bod achos o blaid cyflwyno rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig a fyddai'n gofyn i gynigwyr ymgymryd â chyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion, nid ydym yn cytuno bod angen ymestyn hyn i bob ysgol. Rydym yn fodlon bod digon o 'gamau diogelu' ar waith eisoes ar gyfer cau ysgolion nad ydynt wedi'u dynodi'n ysgolion 'gwledig' o gofio bod y Cod presennol yn nodi bod angen cwblhau asesiad effaith ar y gymuned cyn cyflwyno unrhyw gynnig sy'n cynnwys cau ysgol, a bod yn rhaid i'r cynigydd roi sylw penodol i opsiynau eraill.

**Cwestiwn 7 – Ydych chi'n cytuno y dylai hi fod yn ofynnol i gynigwyr ddilyn y gyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig lle mae'r ysgol fach hefyd wedi'i dynodi fel ysgol wledig?**

| Cytuno | Anghytuno | Nid yn cytuno neu'n anghytuno | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 12 | 6 | 53 |
| 66% | 23% | 11% | 11% |

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn. Fodd bynnag, roedd 8 o'r 15 awdurdod lleol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn anghytuno. Dyma rai o'r sylwadau:

- *Mae'r gweithdrefnau presennol ar gyfer cau ysgolion bach â llai na 10 disgybl yn ddigonol, a bydd cyflwyno'r gweithdrefnau arfaethedig ond yn oedi'r broses.*
- *Erbyn i nifer y disgyblion gyrraedd trothwy ysgol fach, sef llai na deg disgybl, yn anffodus ni chaiff yr ysgol ei hystyried yn hyfyw yn ariannol nac yn addysgiadol yn y tymor byr, y tymor canolig na'r hirdymor. Rydym yn credu y dylai'r gweithdrefnau presennol aros.*
- *Nid ydym yn credu bod ysgol â llai na 10 o blant yn gynaliadwy, ac nid ydym am wneud y broses o gau ysgolion o'r fath yn fwy beichus na hirfaith. Fodd bynnag, rydym yn cytuno bod angen ystyried effeithiau cymunedol ac ieithyddol cau ysgolion o'r fath, gan sicrhau na fydd anfantais ieithyddol (neu unrhyw anfantais arall) yn deillio o drosglwyddo'r plant i ysgol gyfagos, ac na fydd y gymuned yn colli asedau neu gyfleusterau. Mae dysgwyr, teuluoedd a chymunedau o'r fath yn haeddu'r un lefel o barch â chymunedau eraill.*

Fodd bynnag, yn ôl un awdurdod lleol a oedd yn cytuno â'r cynnig: "*Mae cau unrhyw ysgol yn fater dadleuol bob amser. Rydym yn croesawu unrhyw weithdrefn dryloyw sy'n dangos i randdeiliaid bod pob opsiwn arall wedi'i ystyried yn deg cyn penderfynu cau ysgol.*"

Dywedodd ymatebydd arall: “*Er y gall dadleuon gwahanol gael eu cyflwyno dros gau ysgol neu ei chadw ar agor ar sail nifer y disgyblion, ni ddylid pennu safon wahanol i gynigydd gael parhau â’r broses”.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu ar gyfer gweithdrefn symlach ynglŷn â chynigion i gau ysgol fach (sy’n cael ei diffinio fel ysgol â llai na 10 disgybl cofrestredig adeg cyfrifiad ysgolion mis Ionawr). Nid yw’r gofyniad i ymgynghori yn berthnasol i gynigion i gau ysgolion bach, er bod yn rhaid i’r cynigydd gyhoeddi’r cynnig o hyd. Cyn i gynigwyr fynd ati i gyhoeddi’r hysbysiad, mae’r Cod presennol yn nodi y dylent ystyried yr un ffactorau ag sy’n berthnasol i gynnig i gau ysgol â mwy na 10 disgybl.

Mae hyn yn golygu, o dan y Cod presennol, bod yn rhaid i’r cynigydd ystyried yr holl ffactorau perthnasol sydd eisoes wedi’u nodi yn adran 1 o’r Cod, gan gynnwys asesu effaith y cynigion ar ansawdd a safonau addysgol a pha mor effeithiol yw darpariaeth y cwricwlwm, yr angen am leoedd a’r effaith ar hygyrchedd ysgolion, adnoddau addysg ac ati. Hefyd, mae’n rhaid iddynt ystyried yr effaith ar y gymuned trwy lunio asesiad effaith ar y gymuned a rhoi sylw arbennig i opsiynau eraill i gau’r ysgol. O dan y cynnig hwn, os oes cynnig i gau ysgol sy’n ysgol wledig ddynodedig â llai na 10 disgybl cofrestredig, byddai angen i’r cynigydd wneud y canlynol hefyd:

- Nodi rhesymau clir a phenodol dros lunio’r cynnig
- Nodi unrhyw opsiynau rhesymol eraill heblaw cau’r ysgol a allai fynd i’r afael â’r rhesymau dros y cynnig a darparu tystiolaeth i ddangos ei fod wedi ystyried yn ofalus pob opsiwn hyfyw arall (gan gynnwys ffedereiddio), gydag asesiad clir o deilyngdod a hyfywedd yr opsiynau gan gynnwys:

    - ✓ y manteision tebygol i addysg
    - ✓ yr effaith debygol ar y gymuned
    - ✓ yr effaith debygol ar drefniadau teithio

- Amlinellu ym mhapur y cynnig (sef y papur i’w gyflwyno i’r penderfynwr) yr opsiynau eraill sydd wedi’u nodi, asesu’r opsiynau hyn ac esbonio pam mae’r cynigiwr o’r farn, yng ngoleuni’r asesiad, mai mynd ati i gau’r ysgol fyddai’r ymateb mwyaf priodol i’r rhesymau dros y cynnig.

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae’r gofyniad ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei hepgor. O’r herwydd, nid ydym yn ystyried y dylai’r prosesau ychwanegol a amlinellir uchod ychwanegu baich sylweddol neu gynyddu’r amserlen yn sylweddol. Fodd bynnag, dylai sicrhau bod y broses yn fwy tryloyw a bod yr opsiynau sy’n cael eu hystyried eisoes, ynghyd â’u heffeithiau posibl, yn cael eu cofnodi cyn penderfynu bwrw ymlaen i gau’r ysgol.

**Cwestiwn 8 - Ydych chi’n cytuno â chynigion i ddynodi rhai ysgolion fel ysgolion gwledig at ddibenion y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig a’r rhestr o ysgolion yn Atodiad 1? Os nad ydych, nodwch pa ysgolion na ddylid eu cynnwys a pha ysgolion eraill y dylid eu cynnwys, ynghyd â’r rhesymau.**

| Cytuno | Anghytuno | Nid yn cytuno neu'n anghytuno | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 19 | 4 | 57 |
| 60% | 33% | 7% | 100% |

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion. Roedd y rhain yn cynnwys 8 awdurdod lleol, 5 ohonynt yn awdurdodau lleol gwledig yn bennaf. Dyma rai o'r sylwadau:

- *Rydym yn credu bod yr ysgolion sydd wedi'u dynodi'n ysgolion gwledig at ddibenion y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion yn briodol.*
- *Mae'n ymddangos bod y fformiwla a ddefnyddir i ddynodi ysgol wledig yn darparu rhywfaint o gysondeb ac yn golygu bod modd gwneud cymariaethau symlach.*
- *Mae rhestr o ysgolion gwledig yn rhan briodol o'r cod, a byddai'n darparu eglurder ar gyfer y broses o ad-drefnu, gan leihau'r perygl o her gyfreithiol yn ymwneud â'r diffiniad o ysgol wledig.*
- *Mae'r rhestr o ysgolion yn ddefnyddiol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol graffu ar y rhestr i sicrhau ei bod yn gywir.*

Fodd bynnag, mae dadansoddiad o'r sylwadau ategol yn dangos bod 6 o'r 34 o'r farn fod y dynodiad yn rhy gyfyng, gyda 3 yn awgrymu 2 ysgol arall a ddylai fod ar y rhestr o ysgolion gwledig.

Roedd 19 (33%) o ymatebwyr yn anghytuno â'r cynigion yn cynnwys 5 awdurdod lleol, 3 ohonynt yn awdurdodau gwledig yn bennaf. Roedd 9 o'r 19 ymatebydd yn anghytuno ar y sail nad oeddent yn cytuno bod angen rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig.

Dim ond 10 o'r 19 o ymatebwyr a gyfeiriodd at y meini prawf ar gyfer dynodi ysgol wledig, neu'r rhestr o ysgolion gwledig:

- Roedd un yn ystyried y dylem fabwysiadu'r fethodoleg a ddefnyddir yn yr Alban.
- Roedd un yn ystyried y dylem fabwysiadu'r categorïau sydd ar waith yn Lloegr, ac y dylid cynnwys 1 ysgol arall ar y rhestr.
- Dywedodd un nad oedd unrhyw ysgolion o Fro Morgannwg ar y rhestr gan ddweud y dylem ystyried materion fel diffyg trafnidiaeth gyhoeddus, y seilwaith sydd ei angen, maint y pentref, diffyg amwynderau lleol a'r gymuned ffermio.
- Roedd Esgobaeth Llanelwy yn anghytuno â methodoleg y diffiniad ac yn credu na ddylid defnyddio'r dosbarthiad gwledig/trefol yn unig, ond bod angen cynnwys ystyriaethau economaidd-gymdeithasol a demograffig i greu methodoleg unigryw er mwyn penderfynu ar ystyr y term 'gwledig' yng nghyd-destun unigryw Cymru. Rhestrwyd 35 o ysgolion yn Esgobaeth Llanelwy sy'n wledig yn eu barn nhw. Ategwyd ei safbwynt gan 7 o ymatebwyr eraill, gan gynnwys Esgobaeth Mynwy ac unigolion sydd â chysylltiad ag ysgolion yn yr Esgobaeth. Roedd 9 o'r ysgolion hyn eisoes ar y rhestr o ysgolion gwledig a ymgynghorwyd arni.

Oherwydd natur newidiol y dirwedd wledig a threfol yng Nghymru, roedd un ymatebydd yn credu bod angen cyflwyno proses fel bod ysgolion/cymunedau yn gallu gwneud cais am symud i mewn a/neu allan o'r dynodiadau perthnasol. Gofynnodd ymatebydd arall am eglurhad ynglŷn ag a fyddai'r rhestr yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Er mwyn creu rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig roedd angen diffinio "ysgolion gwledig". Fe aethom ati i ystyried dau opsiwn.

Yr opsiwn cyntaf oedd dynodi ysgolion gwledig yn seiliedig ar nodweddion neu feini prawf penodol ysgol. Fodd bynnag, credem y gallai hyn arwain at dipyn o ddadlau mewn perthynas â'r meini prawf a'u dehongliad ym mhob achos lleol; mewn geiriau eraill, a ddylai ysgol benodol ymddangos ar y rhestr ai peidio.

Yr ail opsiwn, a'r opsiwn dewisol, fyddai defnyddio diffiniad mwy cyffredinol o ardaloedd gwledig fel bod unrhyw ysgolion yn yr ardaloedd hynny yn cael eu dynodi fel ysgolion gwledig yn awtomatig at ddiben y cynigion. Yn ein barn ni, pe gellid dyfeisio neu ddefnyddio diffiniad mwy clir a thryloyw o ardaloedd gwledig, byddai'r canlyniadau'n fwy tebygol o ennyn parch ac yn llai tebygol o arwain at ddadlau ynghylch y manylion.

Cafodd rhestr o ysgolion gwledig ei chreu trwy ddefnyddio Dosbarthiad Trefol-Gwledig Ystadegau Gwladol, sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr ac mae'n deillio o brosiect ar y cyd a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru a nifer o adrannau Llywodraeth y DU. Mae'r dosbarthiad yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn Lloegr fel y sylfaen i ddynodi ysgolion gwledig. Mae'n dosbarthu ysgolion yn un o 8 categori ar sail natur eu lleoliad.

1. Tref fawr yn y cyd-destun mwyaf prin.
2. Tref fach yn y cyd-destun mwyaf prin.
3. Pentref yn y cyd-destun mwyaf prin.
4. Arall (pentrefan neu anheddiad gwasgaredig) yn y cyd-destun mwyaf prin.
5. Tref fawr yn y cyd-destun llai prin.
6. Tref fach yn y cyd-destun llai prin.
7. Pentref yn y cyd-destun llai prin.
8. Arall (pentrefan neu anheddiad gwasgaredig) yn y cyd-destun llai prin.

Ar sail y dosbarthiad Trefol-Gwledig, nodwyd bod ysgol wledig, at ddibenion y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, yn ysgol a leolir mewn pentrefi yn y cyd-destun mwyaf prin, ac arall (pentrefan neu anheddiad gwasgaredig) yn y cyd-destun mwyaf prin (3 a 4 yn y rhestr uchod).

Lluniwyd rhestr o ysgolion ar sail y dosbarthiad hwn, ac awgrymodd y ddogfen ymgynghori mai dyma **isafswm** yr ysgolion y dylid eu dynodi'n ysgolion gwledig at ddibenion y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig. Yn seiliedig ar eu gwybodaeth leol, gofynnwyd i ymgyngoreion roi eu barn ar p'un a ddylid dynodi'r ysgolion hyn neu unrhyw ysgolion eraill yn ysgolion gwledig at ddibenion y rhagdybiaeth yn erbyn cau. Roedd y ddogfen ymgynghori'n nodi'n glir bod penderfyniad terfynol ar gategorïau Trefol Gwledig yn cael ei wneud ar ôl ystyried ymatebion.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion, fodd bynnag roedd 16 (28%) o'r 57 o ymatebwyr (gan gynnwys 6 a oedd yn cytuno a 10 a oedd yn anghytuno) o'r farn fod y dynodiad yn rhy gyfyng. Nid ydym yn credu y dylem newid y fethodoleg ar gyfer dynodi ysgolion gwledig sy'n cael ei defnyddio yn Lloegr hefyd. Rydym yn fodlon bod y fethodoleg sy'n cael ei chynnig yn addas.

*Yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad, gallwn gadarnhau mai'r ysgolion yn  y categorïau*

*‘Pentref yn y cyd-destun mwyaf prin’ ac ‘Arall (pentrefan neu anheddiad gwasgaredig) yn y cyd-destun mwyaf prin.’ O’r dosbarthiad Trefol-Gwledig fydd yr isafswm a gaiff eu dynodi’n ysgolion gwledig at ddibenion y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig.*

Fodd bynnag, ar ôl ystyried ymatebion yn llawn, bwriadwn ymestyn y dynodiad o ysgolion gwledig i gynnwys categori ychwanegol o’r dosbarthiad Trefol/Gwledig. Bydd nifer o ysgolion ychwanegol felly’n cael eu dynodi’n rhai ‘gwledig’.

gan fod mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â’r dynodiad arfaethedig a’r rhestr a ddaeth ohono, a chan ystyried ymatebion a oedd yn awgrymu ysgolion ychwanegol penodol y dylid eu cynnwys ar y rhestr, cynigiwn wneud newid bach drwy ychwanegu’r categori ‘arall (pentrefan neu anheddiad gwasgaredig) yn y cyd-destun mwyaf prin.’ (elfen 8 o’r rhestr dosbarthiadau manwl uchod). o ganlyniad, caiff categorïau’r dosbarthiad trefol-gwledig a ddefnyddir i ddynodi ysgolion yn rhai gwledig at ddibenion y rhagdybiaeth yn erbyn cau eu ehangu o gategorïau 3 a 4 i gategorïau 3,4 ac 8 o’r dosbarthiadau manwl uchod.

Bydd ehangu’r rhestr a’r dosbarthiad yn y modd hwn, gan gofio’r ysgolion sydd wedi cau ers cychwyn yr ymgynghoriad, yn ehangu nifer yr ysgolion ar y rhestr o 28, gyda chyfanswm o 219 o ysgolion (neu 17.4%) yng Nghymru yn cael eu dynodi’n rhai gwledig.

Mae’r rhestr ddiweddaraf o ysgolion gwledig at ddibenion y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig wedi’i atodi yn atodiad A. Fe fonitrwn weithrediad y Cod, gan gynnwys y rhagdybiaeth yn erbyn cau a dynodiad ysgolion gwledig at y diben hwn.

**Cwestiwn 9 - Ydych chi’n cytuno â’r gwelliant arfaethedig i’r adran ar leoedd gwag i’w gwneud hi’n glir er ei bod hi’n ofynnol i awdurdodau lleol reoli lleoedd gwag, nad yw hyn o reidrwydd yn golygu cau ysgolion, ac y dylent ystyried opsiynau eraill?**

| Cytuno | Anghytuno | Nid yn cytuno neu’n anghytuno | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 3 | 2 | 45 |
| 89% | 7% | 4% | 100% |

Cafwyd cytundeb cyffredinol bod y gwelliant arfaethedig i’r adran ar leoedd gwag yn ymarferol ac yn synhwyrol. Fodd bynnag, er bod sawl awdurdod lleol yn cytuno â’r cynigion, nododd rhai ohonynt y gallai ystyried opsiynau eraill fel ffedereiddio olygu bod yr ysgolion dan sylw yn gallu gweithredu’n fwy effeithlon trwy rannu arbenigedd ac adnoddau, ond ni fyddent yn arwain at leihau lleoedd gwag yn yr ysgolion hyn. Dyma rai o’r sylwadau:

- *Er y gall opsiynau eraill olygu bod yr ysgolion dan sylw yn gallu gweithredu’n fwy effeithlon trwy rannu arbenigedd ac adnoddau, ond ni fyddent yn arwain at leihau lleoedd gwag yn yr ysgolion hyn.*
- *Nid yw Ffedereiddio, Cydweithio ac Uno yn mynd i’r afael â lleoedd gwag yn effeithiol. Yr unig ffordd o ddileu lleoedd gwag yw cau ysgolion, ac ar ôl ystyriaeth ofalus, efallai mai hwn yw’r unig opsiwn ymarferol.*

Roedd dau ymatebydd yn cwestiynu pwy fyddai’n ariannu’r gwaith o addasu adeiladau ysgolion i’w defnyddio maes o law ar gyfer adnoddau cymunedol neu gyfleusterau

gwasanaethau yn yr un lle.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi gofyn i awdurdodau reoli lleoedd gwag, ond nid yw hyn yn golygu cau ysgolion yn awtomatig. Mae'r Cod presennol yn annog awdurdodau sy'n ystyried cau unrhyw ysgol i roi ystyriaeth arbennig i opsiynau eraill sydd ar gael iddyn nhw a'u hysgolion. Rydym yn cydnabod na fydd ffedereiddio a chydweithredu, o bosib, yn lleihau lleoedd gwag o reidrwydd, ond gall hyrwyddo trefniadau llywodraethu ar y cyd rhwng ysgolion cynradd bach helpu i ymateb i heriau ariannol ac addysgiadol sy'n deillio o ostyngiad yn nifer y disgyblion. Mae'n bosibl y bydd un pennaeth yn gyfrifol am ysgolion sydd wedi'u ffedereiddio, ac efallai y bydd gan yr ysgolion hyn fwy o hyblygrwydd o ran defnyddio staff ac adnoddau eraill, a chyfle i leihau costau gweinyddol gan aros ar agor ar safleoedd ar wahân. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno grant newydd ar gyfer ysgolion bach a gwledig gwerth £2.5 miliwn y flwyddyn o 2017/18 ymlaen. Gall awdurdodau ddefnyddio'r grant i gynyddu gwaith rhwng ysgolion, gan gynnwys ffedereiddio.

Hefyd, rydym yn annog awdurdodau i ystyried rhesymoli lleoedd mewn ysgolion. Gall hyn gynnwys dileu llety dros dro neu ehangu'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan eu hysgolion. Gall awdurdodau lleol ddynodi rhannau o eiddo'r ysgol sy'n cael eu tanddefnyddio ar gyfer defnydd cymunedol, gan eu heithrio wedyn o gyfrifo capasiti'r ysgol at ddibenion derbyn disgyblion. Gall hyn olygu bod ysgolion yn rhydd i newid y defnydd o lety gwag yn barhaol, gan fynd ati i wneud yr addasiadau priodol ar gyfer y diben newydd. Rydym yn cydnabod na fydd y broses o ddileu'r holl leoedd gwag yn ymarferol nac yn ddymunol bob amser. Hefyd, rydym yn derbyn y gall rhai ysgolion mewn ardaloedd gwledig weithredu â chanran uwch o leoedd gwag nag ysgolion mewn ardaloedd trefol.

Dylai defnydd cymunedol o gyfleusterau ysgol fod yn hunangyllidol trwy ffrydiau ariannu gwahanol neu trwy godi tâl ar ddefnyddwyr. Mae modd defnyddio'r grant Ysgolion Bach a Gwledig i gynyddu defnydd cymunedol o adeiladau ysgol gan gynnwys addasu adeiladau i'r perwyl hwn.

**Cwestiwn 10 - Hoffem glywed eich barn am a fydd y gyfres fanwl o weithdrefnau a gofynion y bydd rhaid i gynigwyr eu dilyn mewn perthynas â chynigion i gau ysgolion gwledig yn ychwanegu at faich eich awdurdod lleol. Os ydych chi'n teimlo y bydd baich ychwanegol ar yr awdurdod lleol, beth fydd natur y baich hwnnw? Nodwch fanylion yr effaith gan gynnwys amser a chost.**

### Crynodeb o ymatebion

Cafwyd cytundeb cyffredinol ymysg y 39 o ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn y bydd y gyfres fanwl o weithdrefnau a gofynion y bydd rhaid i gynigwyr eu dilyn yn ychwanegu at faich yr awdurdod lleol. Roedd sawl ymatebydd yn teimlo bod yr awdurdodau lleol yn y sefyllfa orau i fesur y baich ychwanegol.

Ymatebodd 11 awdurdod lleol i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys 8 awdurdod lleol gwledig yn bennaf sy'n debygol o gael eu heffeithio i'r graddau mwyaf gan y cynigion. Nododd sawl un ohonynt eu bod eisoes yn neilltuo amser ac adnoddau sylweddol er mwyn ystyried yr holl opsiynau ymarferol sydd ar gael ar gyfer ysgolion gwledig, a bod cynigion i gau ysgolion ond yn cael eu cyflwyno ar ôl i nifer o opsiynau eraill gael eu hystyried a'u trafod. Nododd un awdurdod lleol fod y "baich ychwanegol" wedi bod yn rhan o'i broses erioed. Nododd un

arall ei fod eisoes yn dilyn proses ymgysylltu gynhwysfawr wrth ystyried unrhyw effaith ar gymunedau.

Er na allai awdurdodau lleol fesur effaith y gyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion o safbwynt amser a chost ar hyn o bryd, roeddent o'r farn y byddai'r baich ychwanegol yn cynnwys effaith ar amser swyddogion, ac ar yr adnoddau sydd ar gael. Ymhlith yr enghreifftiau a gafwyd roedd:

- deall y gofynion ychwanegol;
- ystyried pob opsiwn cyn mynd ati i gynnal ymgynghoriad ffurfiol a dadansoddi a chofnodi'r ffactorau perthnasol yn fanwl;
- sicrhau cysylltiad rhwng y rhaglen moderneiddio ysgolion a'r broses cynllunio cymunedol; ac
- ystyried rôl yr ysgol fel canolfan gymunedol gan gynnwys trafod ag amrywiaeth o asiantaethau eraill ac adnoddau ychwanegol er mwyn rheoli defnydd cymunedol o ysgolion/adeiladau ar y cyd.

Roedd sawl awdurdod yn credu y bydd y gweithdrefnau ychwanegol yn ymestyn y broses gyffredinol o gwblhau ymgynghoriadau statudol, ac y byddent yn effeithio ar allu awdurdod i resymoli darpariaeth mewn modd amserol ar adeg o bwysau ariannol.

Roedd un awdurdod lleol yn credu y byddai'n arwain at berygl ychwanegol o her gyfreithiol (yn enwedig yng nghyd-destun craffu cyfreithiol 'gwledig') a'r angen i ddefnyddio adnoddau i amddiffyn heriau o'r fath.

Er bod nifer o awdurdodau lleol wedi nodi y bydd baich ychwanegol, gallent weld manteision y gyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion, gan nodi:

- *Yn yr hirdymor, dylai'r gweithdrefnau newydd sicrhau bod y broses yn fwy tryloyw a bod rhanddeiliaid o bob math yn deall bod yr holl opsiynau wedi'u hystyried cyn cau'r ysgol.*
- *Yn gyffredinol, bydd y gweithdrefnau a'r gofynion ychwanegol yn golygu bod yr opsiynau sy'n cael eu hystyried eisoes, a'u heffaith tebygol, yn cael eu cofnodi cyn penderfynu mynd ati i gau'r ysgol.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cydnabod y gall y gweithdrefnau a'r gofynion ychwanegol roi baich ychwanegol ar rai awdurdodau lleol o ran amser staff. Fodd bynnag, roedd nifer o sylwadau gan awdurdodau lleol yn cefnogi'n barn bod rhai cynigwyr eisoes yn gwneud llawer o'r hyn y bydd ail fersiwn y Cod yn ei wneud yn orfodol mewn perthynas ag achosion posibl o gau ysgolion gwledig. Fodd bynnag, fel y nodwyd gan un awdurdod lleol, "*mae'r gweithdrefnau a'r gofynion ychwanegol yn debygol o gryfhau cynigion gan sicrhau bod yr effaith debygol o hynny allan yn cael ei dogfennu'n gynhwysfawr cyn penderfynu bwrw ymlaen i gau ysgol wledig".* Byddwn yn parhau i fonitro ail fersiwn y Cod i weld beth yw effaith cyflwyno'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig ar awdurdodau lleol.

**Cwestiwn 11 - Hoffem glywed eich barn am yr effaith y byddai rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yn ei chael ar y Gymraeg, ac yn benodol ar: i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg.**

**Pa effaith fyddai hyn yn ei chael yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, a lliniaru effeithiau negyddol?**

**Cwestiwn 12 - Esboniwch hefyd sut y credwch y gallai’r polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei newid: i) fel y bydd yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg; II) fel na fydd yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg.**

Roedd cwestiynau 11 a 12 yn gofyn am safbwyntiau ar yr iaith Gymraeg. Dywedodd rhai ymatebwyr fod y cwestiynau’n rhy debyg, ac ysgrifennodd eraill ‘gweler uchod’ neu aethant ati i ailadrodd eu hateb i gwestiwn 11 yn yr ail gwestiwn. Felly, bydd y dadansoddiad hwn yn cyfuno’r ddau gwestiwn a ddenodd sylwadau naratif gan 31 o ymatebwyr gan gynnwys 10 awdurdod lleol. Mae ymatebion perthnasol a chysylltiedig a dderbyniwyd i gwestiynau blaenorol wedi’u cynnwys yn yr adran hon hefyd.

Roedd 13 o ymatebwyr yn credu y byddai rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg. Roedd eu hymatebion mewn tri maes cyffredinol:

- Trwy ddiogelu neu gynnal ysgolion lle mai Cymraeg yw iaith naturiol y gymuned neu le mai ysgol gynradd y pentref yw’r unig leoliad sy’n defnyddio’r Gymraeg mewn ardal Saesneg yn bennaf.
- Trwy roi cyfle i newydd-ddyfodiaid i’r ardal nad ydynt yn gwybod am y Gymraeg ddysgu’r iaith a dod yn siaradwyr Cymraeg rhugl.
- Trwy roi cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg mewn ardaloedd lle mai’r ysgol yw canolbwynt digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol y gymuned.

Roedd un ymatebydd yn credu y gallai’r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig gael effaith negyddol am y rheswm canlynol: “*Fe all gyfyngu ar gyfleoedd i ddysgu Cymraeg os yw ysgol fach â nifer fach o ddisgyblion yn methu darparu cwricwlwm llawn”***.** Mewn ardaloedd gwledig sydd ag ysgol cyfrwng Saesneg bach (h.y. o dan 90 o ddisgyblion), roedd ymatebydd arall yn credu bod bodolaeth ysgol fach yn ei gwneud yn anos darparu mynediad cyfartal i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg gan fod yr ysgolion hyn yn rhy fach i hwyluso’r broses o gyflwyno ffrwd Gymraeg. Mae’n debygol o gael effaith negyddol ar allu’r awdurdod i ddarparu mynediad gwell i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion sy’n byw mewn ardaloedd nad ydynt yn gymunedau Cymraeg traddodiadol.

Nododd rhai ymatebwyr yn ystyried mai ychydig o effaith a fyddai, os o gwbl, gan nodi fod camau diogelu ar waith eisoes yn y Cod presennol ac yng ngweithdrefnau awdurdodau lleol yn ymwneud â’r Gymraeg:

- *Os cyflwynir cynnig i gau ysgol, bydd awdurdodau lleol yn cynnig darpariaeth addysg gyfatebol arall. Byddai awdurdodau lleol yn asesu effaith bosibl cynnig i gau ysgol ar yr iaith Gymraeg cyn cyflwyno’r cynigion.*
- *Os yw’r ysgol wledig yn ysgol Gymraeg, dylai’r ddarpariaeth amgen a gynigir fod yn gyfrwng Cymraeg hefyd, gan ddileu unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg.*
- *Os oes cynnig yn cael ei gyflwyno i gau ysgol cyfrwng Cymraeg, sydd hefyd wedi’i ddynodi’n ysgol wledig, byddai angen ystyried, er enghraifft, trefniadau teithio fel bod disgyblion yn gallu mynychu’r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf.*

- *Os yw'r ysgol y bwriedir ei chau yn ysgol cyfrwng Cymraeg, byddai angen ystyried ffactor yr iaith Gymraeg os oes galw am addysg Gymraeg.*

Awgrymodd rhai ymatebwyr y gellid llunio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn cael effaith gadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg:

- Os yw Cymru am gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050, mae angen cryfhau natur ieithyddol unrhyw drefniadau newydd drwy wneud y canlynol: Sicrhau bod uno ysgol cyfrwng Saesneg ac ysgol dwy ffrwd yn creu ysgol dwy ffrwd o leiaf; sicrhau bod uno ysgol dwy ffrwd ac ysgol cyfrwng Cymraeg yn esblygu'n rhesymol yn ysgol cyfrwng Cymraeg, o dan nawdd Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Gellid llunio'r cod fel bod angen cyfiawnhad cadarn dros beidio â symud categori iaith unrhyw ysgol yn uwch ar raddfa categoreiddio ysgolion Cymraeg.
- Mae angen sicrhau ei bod yn haws i awdurdodau newid categori iaith ysgol a chyflwyno newidiadau eraill i'r dull o ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg.
- Nid yw'r polisi arfaethedig yn rhoi digon o ystyriaeth i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol. Rydym yn croesawu cyflwyniad y gofyniad i ddarparwyr nodi yn y ddogfen ymgynghori sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol. Mae angen cryfhau hyn ymhellach trwy ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr nodi sut maent wedi ystyried y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal sy'n cael ei heffeithio gan y cynnig, pa fesurau sydd wedi'u cyflwyno i fesur y galw ac a oes digon o leoedd cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion yn yr ardal sy'n cael ei heffeithio. Nid yw cynigwyr yn rhoi digon o ystyriaeth i'r materion hyn ar hyn o bryd.
- Dylid ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr gwblhau Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ar gyfer pob cynnig, nid dim ond cynigion yn ymwneud ag ysgolion sy'n addysgu pynciau ac eithrio'r Gymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg gydol yr amser neu am rywfaint o'r amser.

**Ymateb Llywodraeth Cymru –** Mae'r holl newidiadau arwyddocaol i ddarpariaeth addysg a elwir yn newidiadau a reoleiddir yn cael eu disgrifio yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae adran 2 o'r Cod yn eu hailadrodd. Mae Deddf 2013 a'r Cod yn disgrifio newidiadau i ysgolion cynradd yn nhermau cynyddu neu leihau canran amser addysgu cyfrwng Cymraeg neu Saesneg. Mae newidiadau i ysgolion uwchradd yn cael eu disgrifio yn nhermau cynyddu neu leihau nifer y pynciau sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Mae gwelliannau i'r newidiadau a reoleiddir y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad ar y Cod gan y byddai angen cyflwyno gwelliant i Ddeddf 2013. Byddwn yn monitro'r sefyllfa, ond nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod angen gwelliannau i'r newidiadau a reoleiddir ar hyn o bryd.

Rydym yn credu y byddai gofyniad i gynigwyr gwblhau Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ar gyfer pob cynnig yn gosod baich diangen arnynt. Fodd bynnag, rydym wedi diwygio'r Cod i roi mwy o bwyslais ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae adran 3 o'r Cod wedi'i diwygio er mwyn sicrhau bod dogfennau ymgynghori yn darparu'r wybodaeth ganlynol:

- *i ba raddau y byddai'r cynnig yn helpu i gyrraedd targedau'r Cynllun Strategol mewn Addysg cymeradwy;*
- *sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau darpariaeth Gymraeg, ac os yw'n lleihau darpariaeth, nodi'r rheswm am hynny.*

Er mwyn atgyfnerthu hyn, byddwn yn ystyried diwygio adran 1.4 o'r Cod gan nodi bod angen ystyried y ffactorau hyn wrth baratoi a chyhoeddi cynigion.

**Cwestiwn 13 - Rydym wedi gofyn amryw o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau ar feysydd nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, nodwch nhw yma.**

Mynegwyd safbwyntiau amrywiol gan 14 o ymatebwyr i'r cwestiwn olaf hwn. Mae rhai o'r sylwadau wedi'u hychwanegu at naratif yr adrannau blaenorol lle bo hynny'n briodol. Mae sylwadau ychwanegol eraill wedi'u nodi isod.

**Sefydlu ysgolion gwirfoddol –** Dywedodd dau ymatebydd na ddylai awdurdod lleol allu sefydlu ysgolion gwirfoddol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru –** Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth (Cymru) 2013 yn caniatáu i awdurdodau lleol sefydlu ysgolion gwirfoddol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y mater hwn ar hyn o bryd ac yn ystyried a ddylid diwygio'r ddeddfwriaeth i atal awdurdod lleol rhag sefydlu ysgolion gwirfoddol. Mae'r mater hwn y tu hwnt i gwmpas y Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan y byddai angen diwygio Deddf 2013.

Felly, bydd y Cod diwygiedig yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. Fodd bynnag, os yw awdurdod lleol yn cynnig sefydlu ysgol wirfoddol â chymeriad crefyddol, bydd y Cod yn nodi'n glir y dylai'r awdurdod lleol gydweithio'n agos â'r corff crefyddol perthnasol.

**Dechrau ail argraffiad y Cod –** Mae'r crynodeb o'r Cod drafft yn cyfeirio at y dyddiad pan ddaw ail argraffiad y Cod i rym, gan nodi y bydd cynigion a gyhoeddir cyn y dyddiad hwn yn cael eu penderfynu yn unol ag argraffiad cyntaf y Cod. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, awgrymodd un ymatebydd y byddai'n ddefnyddiol datgan bod cynigion yn cael eu cyhoeddi "trwy hysbysiad statudol".

**Ymateb Llywodraeth Cymru**: Rydym yn cytuno a byddwn yn diwygio'r Cod yn unol â hynny.

**Newidiadau a reoleiddir –** Dylid ystyried symleiddio'r broses berthnasol ar gyfer rhai cynigion adrefnu ysgolion, gan gynnwys codi estyniadau mewn ysgolion lle mae nifer y disgyblion yn cynyddu, neu rhai diwygiadau AAA, fel adleoli dosbarthiadau dynodedig neu newid natur y ddarpariaeth.

Mae'r trefniadau ar gyfer newidiadau a reoleiddir i'r iaith Gymraeg yn aneglur. Nid oes sylfaen gyfreithiol i gategorïau iaith ysgolion, ac mae'n peri dryswch i rieni os oes angen newid a reoleiddir er mwyn newid natur darpariaeth ieithyddol nad yw'n newid categori iaith ysgol. Mae angen rheoliadau pwrpasol ar gyfer newidiadau i ddarpariaeth ieithyddol yn hytrach na defnyddio darpariaethau'r Cod.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Mae'r holl newidiadau arwyddocaol i ddarpariaeth addysg a elwir yn newidiadau a reoleiddir yn cael eu nodi yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013"). Mae angen defnyddio gweithdrefnau statudol i wneud y cyfryw newidiadau i ysgolion. Mae hyn yn cynnwys cynyddu safle ysgol a fyddai'n cynyddu

capasiti'r ysgol o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion, ac ychwanegu at y math o ddarpariaeth AAA, ei dileu neu wneud unrhyw newid iddi.

Amcan y gweithdrefnau yw sicrhau bod modd gwneud newidiadau gofynnol mewn ffordd sy'n diogelu buddiannau dysgwyr ac yn rhoi cyfle i bartïon â buddiant leisio eu barn fel rhan o'r broses. Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu llacio'r gofynion hyn.

O safbwynt darpariaeth Gymraeg, mae Deddf 2013 a'r Cod yn disgrifio newidiadau i ysgolion cynradd yn nhermau cynyddu neu leihau canran amser addysgu cyfrwng Cymraeg neu Saesneg. Mae newidiadau i ysgolion uwchradd yn cael eu disgrifio yn nhermau cynyddu neu leihau nifer y pynciau sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod angen deddfwriaeth ar wahân ar gyfer cynigion i newid cyfrwng iaith ysgol. Byddwn yn monitro'r sefyllfa, ond nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod angen deddfwriaeth ddiwygio ar hyn o bryd.

Mae "Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg" yn darparu canllawiau ac yn nodi disgrifiadau a chategorïau o ysgolion yn unol â faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio. Rydym yn awyddus i ddarparu canllawiau clir bob amser, ac roedd yn achos pryder i ni glywed bod y canllawiau hyn yn peri dryswch o'u hystyried yn erbyn newidiadau a reoleiddir i gynyddu neu leihau canran addysgu cyfrwng Cymraeg neu Saesneg. Byddwn yn ymchwilio i'r mater hwn yn fanylach ac yn ystyried a oes angen diwygio'r canllawiau.

**Amseru cyfnodau cyhoeddiadau statudol a gwneud penderfyniadau –** Gofynnodd dau ymatebydd am ymestyn y cyfnod 16 wythnos ar gyfer awdurdodau lleol sy'n gwneud penderfyniad ar gynnig. Gofynnodd un arall am ymestyn y cyfnod 7 diwrnod ar ôl gwneud penderfyniad ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebu a chyhoeddi'r llythyr penderfynu i 14 diwrnod ar ôl gwneud penderfyniad er mwyn darparu ar gyfer cyfnod galw penderfyniadau Cabinet i mewn.

Awgrymodd un ymatebydd fod angen geirio'r gofyniad i ddosbarthu'r hysbysiad statudol i ddisgyblion mewn ffordd wahanol, yn debyg i'r broses ymgynghori h.y. dosbarthu'r hysbysiad i ddisgyblion lle bo hynny'n briodol, yn ymarferol neu'n berthnasol i'w hoedran.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**: Mae Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr benderfynu ar gynnig o fewn 16 wythnos i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu, ac i hysbysu Gweinidogion Cymru am y penderfyniad o fewn 7 diwrnod i wneud y penderfyniad. Mae'r awgrym hwn y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad ar y Cod gan y byddai angen cyflwyno gwelliant i Ddeddf 2013. Byddwn yn monitro'r sefyllfa, ond nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod angen diwygio Deddf 2013 ar hyn o bryd.

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu hysbysiadau i ysgolion i'w dosbarthu i ddisgyblion a rhieni. Mae'r Cod yn datgan: *"Rhaid i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi: drwy roi copïau o'r hysbysiad i unrhyw ysgol sy'n destun cynigion i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, a staff yr ysgol (gall yr ysgolion ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost);"*

Er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau yn agored ac yn deg, mae'n rhaid i ddisgyblion, rhieni ac eraill sydd â buddiant wybod am gyhoeddi hysbysiad a phryd y mae'r cyfnod gwrthwynebu yn cychwyn. Rydym wedi ystyried dulliau gwahanol o wneud hyn, ond rydym

yn credu mai parhau â'r trefniadau dosbarthu presennol yw'r dull symlaf a mwyaf effeithiol o hysbysu holl ddisgyblion a rhieni ysgolion sy'n cael eu heffeithio.

**Rhagdybiaeth bosibl yn erbyn newid natur ysgol** – Roedd un ymatebydd yn poeni ei bod yn ymddangos bod rhagdybiaeth yn erbyn newid cymeriad ysgol gymunedol i ysgol grefyddol. Teimlai'r ymatebydd y gallai hyn helpu i gynyddu effeithiolrwydd a hyfywedd ysgol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**: Nid yw Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn caniatáu i ysgol gymunedol fod â chymeriad crefyddol. Er mwyn newid i fod yn ysgol â chymeriad crefyddol, byddai'n rhaid i'r ysgol gau a chael ei disodli gan ysgol wirfoddol. Os oes galw nas bodlonir ar gyfer lleoedd mewn darpariaeth addysg â chymeriad crefyddol, dylai'r corff crefyddol perthnasol gysylltu â'r awdurdod lleol i geisio cydweithio ar asesu'r galw, a chyflwyno cynnig os oes angen. Os yw corff llywodraethu, pennaeth, staff a rhieni ysgol gymunedol sydd eisoes wedi'i sefydlu yn dymuno i'r ysgol fod â chymeriad crefyddol, dylent drafod y mater â'r awdurdod lleol a'r corff crefyddol perthnasol. Os yw'r awdurdod lleol yn cytuno â'r cais, mae'n gallu cyflwyno cynnig i gau'r ysgol gymunedol mewn ymgynghoriad â'r corff crefyddol perthnasol, gan sefydlu ysgol wirfoddol â chymeriad crefyddol.

**Atgyfeiriadau i Weinidogion Cymru** – Roedd un ymatebydd yn teimlo bod diffyg cyfartaledd o dan system sy'n rhoi hawl i gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol neu ysgolion sefydledig sy'n destun cynnig sydd wedi'i gymeradwyo neu ei wrthod gan awdurdod lleol atgyfeirio'r penderfyniad i Weinidogion Cymru, ond na all cyrff llywodraethu ysgolion cymunedol wneud hynny. Hefyd, teimlai fod angen rhagor o eglurder ynglŷn â'r gweithdrefnau ar ôl atgyfeirio penderfyniad i Lywodraeth Cymru a'r amserlenni disgwyliedig, gan nodi y dylai fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru hysbysu Awdurdodau Lleol bod atgyfeiriad wedi'i gyflwyno.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Mae'r cyrff sy'n gallu atgyfeirio penderfyniadau awdurdodau lleol i Weinidogion Cymru wedi'u disgrifio yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol ac ysgolion sefydledig wedi'u cynnwys oherwydd bod gwahaniaethau hanesyddol ar waith yn aml, er bod yr ysgolion yn cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol. Mae'n bosibl na fydd yr awdurdod lleol yn berchen ar adeiladau a safle'r ysgol, gall yr ysgol fod â chymeriad crefyddol a gall y corff llywodraethu fod yn gyfrifol am dderbyniadau i'r ysgol. Nid ydym yn bwriadu newid Deddf 2013.

Byddwn yn ystyried diwygio'r Cod i ddarparu rhagor o ganllawiau ar atgyfeiriadau i Weinidogion Cymru. Rydym yn cydnabod bod y Cod wedi hepgor gofyniad i'r corff sy'n atgyfeirio'r penderfyniad neu Lywodraeth Cymru hysbysu'r awdurdod lleol bod atgyfeiriad wedi'i wneud i Weinidogion Cymru. Byddwn yn diwygio'r Cod yn unol â hyn.

**Canllawiau ar gydymffurfio â'r Cod** – Awgrymodd un awdurdod lleol y dylai'r canllawiau ragnodi'n union beth y mae Estyn am i gynigion eu cynnwys gan fod Estyn wedi beirniadu diffyg manylion am ddeilliannau disgyblion ac ysgolion ac ati mewn rhai cynigion.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**: O dan adran 3.4 o'r Cod diwygiedig, mae'n rhaid i gynigwyr ddarparu dadansoddiad o effaith debygol y cynnig ar ansawdd pum maes arolygu Estyn - safonau, addysgu a phrofiadau dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad, ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r Cod yn nodi'n glir y dylai'r broses ymgynghori gynnwys rhesymau a gwybodaeth ddigonol ar gyfer cynigion penodol er mwyn hwyluso ystyriaeth ac ymateb deallus. Cynigwyr sy'n gyfrifol am gwblhau eu hasesiad eu hunain o'r cynnig yn erbyn y

ffactorau allweddol. Rydym yn credu y byddai llunio Cod yn unol â'r awgrym yn rhy ragnodol ac y byddai modd ei feirniadu am newid ymgynghoriad i ymarferiad ticio bocsys.

Os yw Estyn wedi beirniadu ymateb yr awdurdod lleol i'r rhan hon o'r Cod, dylai'r awdurdod lleol ddefnyddio'r adborth i wella dogfennau ymgynghori yn y dyfodol, gan ofyn am ragor o eglurder a chymorth gan Estyn yn ôl yr angen.

**Dileu swyddi mewn ysgolion**

Roedd tri undeb ysgol yn credu bod angen cynnwys nifer y swyddi posibl sy'n cael eu dileu mewn ysgol yn y ffactorau sydd i'w hystyried wrth bwyso a mesur gwaith adrefnu ysgol yn adran 1 o'r Cod.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**: Mae'r ffactorau sydd wedi'u cynnwys yn y Cod yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu effeithiolrwydd ysgolion a chau'r bwlch cyflawniad rhwng ardaloedd breintiedig ac ardaloedd difreintiedig. Mae'r Cod yn nodi'n glir y dylai cyrff perthnasol roi buddiannau dysgwyr uwchlaw popeth arall. Er ein bod yn cydnabod y bydd dileu swyddi staff yn ystyriaeth bwysig i awdurdodau lleol, nid ydym yn credu y dylid cynnwys y ffactor hwn yn y Cod.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynllunio darpariaeth i ddiwallu anghenion eu dysgwyr. Mae cyrff llywodraethu ysgol yn gyfrifol am sicrhau bod digon o athrawon i gyflwyno'r cwricwlwm yn yr ysgol.

**Proses symlach ar gyfer ysgolion bach â llai na 10 disgybl**

Roedd sawl ymatebydd yn credu bod y trothwy o lai na 10 disgybl cofrestredig ar gyfer sbarduno proses gyflymach y cod trefniadaeth ysgolion presennol yn rhy isel. Awgrymodd un ymatebydd y dylid pennu'r trothwy rhwng 25 a 30 o ddisgyblion llawn amser.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r awgrym y dylid ymestyn diffiniad ysgol fach y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad ar y Cod. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i adolygu hyn ar hyn o bryd.

.

# 2. Y Ffordd Ymlaen

Hoffai Llywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Bydd y Cod drafft yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn unol ag adran 39 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, caiff ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru am 40 diwrnod, a daw i rym ar ôl hynny oni bai bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu peidio â'i gymeradwyo. Yn amodol ar y weithdrefn hon, disgwylir i ail argraffiad o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion gael ei gyhoeddi yn yr hydref a dod i rym ar 1 Hydref 2018.

## 3. Rhestr o Ymatebwyr

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Owen Hathaway, NUT Cymru | |
| Julie Hadley, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | |
| Mark Horton, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | |
| Zenna Griffiths, Cyngor Sir Ceredigion | |
| Dienw | |
| Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru | |
| Rob Williams, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru | |
| Tim Pratt, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru | |
| Sue Richards, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | |
| Philip Manghan, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig | |
| E J Humphreys, Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn | |
| E J Humphreys, Cyngor Cymuned yr Ystog | |
| Dienw | |
| Sarah Astley, Cyngor Sir Powys | |
| Dienw | |
| Claire Homard, Cyngor Sir y Fflint | |
| Huw Jones, Cyngor Sir Penfro | |
| Hedd Thomas, Cyngor Sir Gwynedd | |
| Emrys Bebb, Cyngor Môn | |
| Elizabeth Williams, Voice Cymru (yr Undeb) | |
| Dienw | |
| Dienw | |
| Dienw | |
| Michaela Benjamin, Estyn | |
| Sam MacNamara, Llywodraethwyr Cymru | |
| Annette Daley, Esgobaeth Mynwy | |
| Rowan Fergusan, Y Gymdeithas Genedlaethol (Yr Eglwys yng Nghymru ac Eglwys Loegr) | |
| Mary van den Heuvel, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, Adran Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr | |
| Deborah Weston, Cyngor Sir Casnewydd | |
| Dienw | |
| Dienw | |
| Dienw | |
| Paul Egan, Cyngor Cymuned Llandochau | |
| Dienw | |
| Dienw | |
| Dienw | |
| Dienw | |
| Dienw | |
| Y Parchedig Mark Beaton, Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Gladestry | |
| Ceri Hoffrock, Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant | |
| Hattie Budd | |
| Louise Whitgreave, Pennaeth Ysgol Gynradd Eyton | |
| Rosalind Williams, Esgobaeth Llanelwy | |
| Rita Price, Gwasanaeth Addysg Esgobaeth Gatholig Wrecsam | |
| Rebecca Williams, UCAC | |
| Dienw | |
| Debbie Thomas, Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar | |

| | |
|---|---|
| Cymru | |
| Neal Green, Y Comisiwn Elusennau | |
| Alison Alexander – Clerc, Cyngor Cymuned Trefnant | |
| Dafydd Jones, Grŵp Cymunedol Bodorgan | |
| Huw Williams a Clare Hardy, Geldards LLP | |
| Gail Bennett, Cyngor Cymuned Llanbister | |
| Nancy Matthews | |
| Susan Huyton, Ysgol Gynradd Eyton, Wrecsam | |
| Kelly Small, Cyngor Dinas Abertawe | |
| Dienw | |
| Huw Rowlands, Ysgol Dyffryn Iâl | |
| Angie Price, Cyngor Tref y Barri | |
| Suzanne Van Loock, Ysgol Llanbedr ac Ysgol Llanbedr (pennaeth) | |
| Del Morgan, Un Llais Cymru | |
| Julie Baddock, Ysgol Llanbedr (corff llywodraethu) | |
| Jennie Downes, Ysgol Gynradd Nannerch | |
| Rhian Jones, Ysgol Gynradd Biwmares | |
| Richard Gordon, Cyngor Castell-nedd Port Talbot | |
| Rex Phillips, Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau Cymru | |
| Gaynor Purcell, Ysgol Gynradd St Chad | |
| Dienw | |
| Dienw | |
| Dienw | |
| Y Gwir Anrhydeddus Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru | |
| Gofynnodd 18 o ymatebwyr am gael aros yn ddienw | |

# Atodiad A: Rhestr o ysgolion gwledig

| School Ref | School Name | Local Authority |
|---|---|---|
| 6602133 | Ysgol Gymuned Bodffordd | Sir Ynys Mon - Isle of Anglesey |
| 6602135 | Ysgol Gymuned Bryngwran | Sir Ynys Mon - Isle of Anglesey |
| 6602141 | Ysgol Gynradd Garreglefn | Sir Ynys Mon - Isle of Anglesey |
| 6602142 | Ysgol Gymuned Y Ffridd | Sir Ynys Mon - Isle of Anglesey |
| 6602145 | Ysgol Gymuned Moelfre | Sir Ynys Mon - Isle of Anglesey |
| 6602146 | Ysgol Gynradd Llanbedrgoch | Sir Ynys Mon - Isle of Anglesey |
| 6602153 | Ysgol Gymuned Llanfechell | Sir Ynys Mon - Isle of Anglesey |
| 6602155 | Ysgol Gynradd Llangoed | Sir Ynys Mon - Isle of Anglesey |
| 6602156 | Ysgol Henblas | Sir Ynys Mon - Isle of Anglesey |
| 6602157 | Ysgol Gymuned Llannerch-Y-Medd | Sir Ynys Mon - Isle of Anglesey |
| 6602160 | Ysgol Pencarnisiog | Sir Ynys Mon - Isle of Anglesey |
| 6602162 | Ysgol Penysarn | Sir Ynys Mon - Isle of Anglesey |
| 6602163 | Ysgol Santes Gwenfaen | Sir Ynys Mon - Isle of Anglesey |
| 6602165 | Ysgol Gynradd Rhosybol | Sir Ynys Mon - Isle of Anglesey |
| 6602173 | Ysgol Gynradd Y Tywyn | Sir Ynys Mon - Isle of Anglesey |
| 6602227 | Ysgol Rhy y Llan | Sir Ynys Mon - Isle of Anglesey |
| 6605200 | Ysgol Caergeiliog | Sir Ynys Mon - Isle of Anglesey |
| 6612008 | Ysgol Gynradd Abererch | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612010 | Ysgol Beddgelert | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612015 | Ysgol Gynradd Borth-Y-Gest | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612017 | Ysgol Brynaerau | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612036 | Ysgol Gynradd Chwilog | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612039 | Ysgol Crud-Y-Werin | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612046 | Ysgol Gynradd Edern | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612048 | Ysgol Bro Plenydd | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612049 | Ysgol Gynradd Garndolbenmaen | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612059 | Ysgol Gynradd Llanaelhaearn | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612060 | Ysgol Gynradd Llanbedrog | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612066 | Ysgol Gynradd Llangybi | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612070 | Ysgol Gynradd Llanllyfni | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612075 | Ysgol Babanod Morfa Nefyn | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612078 | Ysgol Baladeulyn | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612081 | Ysgol Gynradd Nebo | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612093 | Ysgol Gynradd Pentreuchaf | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612103 | Ysgol Sarn Bach | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612110 | Ysgol Y Gorlan | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612111 | Ysgol Yr Eifl | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612112 | Ysgol Gynradd Tudweiliog | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612185 | Ysgol Gynradd Dyffryn Dulas | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612189 | Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612190 | Ysgol Bro Cynfal | Gwynedd - Gwynedd |

| | | |
|---|---|---|
| 6612192 | Ysgol Edmwnd Prys | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612194 | Ysgol Gynradd Llanbedr | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612198 | Ysgol Y Garreg | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612199 | Ysgol O M Edwards | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612207 | Ysgol Gynradd Pennal | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612210 | Ysgol Talsarnau | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612211 | Ysgol Gynradd Tanygrisiau | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612213 | Ysgol Bro Hedd Wyn | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612214 | Ysgol Bro Tryweryn | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612220 | Ysgol Ffridd Y Llyn | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612228 | Ysgol Craig y Deryn | Gwynedd - Gwynedd |
| 6612229 | Ysgol Bro Llifon | Gwynedd - Gwynedd |
| 6613004 | Ysgol Pont Y Gof | Gwynedd - Gwynedd |
| 6613010 | Ysgol Foel Gron | Gwynedd - Gwynedd |
| 6613018 | Ysgol Gynradd Llandwrog | Gwynedd - Gwynedd |
| 6613023 | Ysgol Gynradd Llanystumdwy | Gwynedd - Gwynedd |
| 6622012 | Ysgol Betws Y Coed | Conwy - Conwy |
| 6622043 | Ysgol Dolwyddelan | Conwy - Conwy |
| 6622086 | Ysgol Penmachno | Conwy - Conwy |
| 6622107 | Ysgol Tal-y-Bont | Conwy - Conwy |
| 6622123 | Ysgol Cerrigydrudion | Conwy - Conwy |
| 6622222 | Ysgol Capel Garmon | Conwy - Conwy |
| 6622270 | Ysgol Pentrefoelas | Conwy - Conwy |
| 6623021 | Ysgol Llangelynnin | Conwy - Conwy |
| 6623032 | Ysgol Ysbyty Ifan | Conwy - Conwy |
| 6623039 | Ysgol Llanddoged | Conwy - Conwy |
| 6623340 | Ysgol y Plas | Conwy - Conwy |
| 6632070 | Ysgol Bofari | Sir Ddinbych – Denbighshire |
| 6632124 | Ysgol Cefn Meiriadog | Sir Ddinbych – Denbighshire |
| 6632164 | Ysgol Gellifor | Sir Ddinbych – Denbighshire |
| 6632168 | Ysgol Pentrecelyn | Sir Ddinbych - Denbighshire |
| 6632214 | Ysgol Betws Gwerful Goch | Sir Ddinbych - Denbighshire |
| 6632216 | Ysgol Caer Drewyn | Sir Ddinbych - Denbighshire |
| 6632267 | Ysgol Bro Dyfrdwy | Sir Ddinbych - Denbighshire |
| 6633044 | Ysgol Llanbedr | Sir Ddinbych - Denbighshire |
| 6633045 | Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd | Sir Ddinbych - Denbighshire |
| 6633057 | Ysgol Pant Pastynog | Sir Ddinbych - Denbighshire |
| 6642050 | Rhos Helyg C.P. School | Sir y Fflint – Flintshire |
| 6642064 | Ysgol Y Foel | Sir y Fflint – Flintshire |
| 6642065 | Brynford C.P. School | Sir y Fflint - Flintshire |
| 6652140 | Llanarmon C.P. School | Wrecsam - Wrexham |
| 6653042 | Eyton V.C. School | Wrecsam – Wrexham |
| 6653054 | Borderbrook V.C. School | Wrecsam – Wrexham |
| 6653326 | St Chad’s V.A. School | Wrecsam – Wrexham |

| | | |
|---|---|---|
| 6653347 | St Paul’s V.A.School | Wrecsam – Wrexham |
| 6662002 | Abermule C.P. School | Powys – Powys |
| 6662003 | Arddleen C.P. School | Powys – Powys |
| 6662004 | Ysgol Gynradd Gymunedol Dyffryn Banw | Powys – Powys |
| 6662005 | Berriew C.P. School | Powys – Powys |
| 6662008 | Caersws C.P. School | Powys – Powys |
| 6662009 | Ysgol Gynradd Carno | Powys – Powys |
| 6662018 | Leighton C.P. School | Powys – Powys |
| 6662019 | Ysgol Llanbrynmair | Powys – Powys |
| 6662020 | Llandinam C.P. School | Powys – Powys |
| 6662021 | Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion | Powys – Powys |
| 6662033 | Meifod C.P. School | Powys – Powys |
| 6662041 | Ysgol Pontrobert | Powys – Powys |
| 6662044 | Ysgol Dyffryn Trannon | Powys – Powys |
| 6662049 | Guilsfield C.P. School | Powys – Powys |
| 6662051 | Buttington Trewern C.P. School | Powys – Powys |
| 6662053 | Brynhafren C.P. School | Powys – Powys |
| 6662054 | Churchstoke C.P. School | Powys – Powys |
| 6662057 | Ysgol Gynradd Llanfyllin | Powys – Powys |
| 6662058 | Ysgol Gynradd Glantwymyn | Powys – Powys |
| 6662059 | Ysgol Pennant | Powys – Powys |
| 6662066 | Franksbridge C.P. School | Powys – Powys |
| 6662068 | Llanbister C.P. School | Powys – Powys |
| 6662071 | Llanfihangel Rhydithon C.P. School | Powys – Powys |
| 6662076 | Radnor Valley C.P. School | Powys – Powys |
| 6662077 | Crossgates C.P. School | Powys – Powys |
| 6662084 | Ysgol Dolafon | Powys – Powys |
| 6662092 | Sennybridge C.P. School | Powys – Powys |
| 6662115 | Cradoc C.P. School | Powys – Powys |
| 6662122 | Irfon Valley C.P. School | Powys – Powys |
| 6662129 | Ysgol Rhiw Bechan | Powys – Powys |
| 6662146 | Llanrhaeadr Ym Mochnant C.P. School | Powys – Powys |
| 6663000 | Llanfechain V.C. School | Powys – Powys |
| 6663002 | Montgomery V.C. School | Powys – Powys |
| 6663016 | Forden V.C. School | Powys – Powys |
| 6663021 | Llandysilio V.C. School | Powys – Powys |
| 6663022 | Castle Caereinion V.C. School | Powys – Powys |
| 6663026 | Gladestry V.C. School | Powys – Powys |
| 6663031 | Newbridge-On-Wye V.C. School | Powys – Powys |
| 6663033 | Clyro V.C. School | Powys – Powys |
| 6663036 | Rhayader V.C. School | Powys – Powys |
| 6663037 | Llanelwedd V.C. School | Powys – Powys |
| 6663046 | Llangedwyn V.C. School | Powys – Powys |

| | | |
|---|---|---|
| 6663301 | St. Michael's V.A. School | Powys – Powys |
| 6663303 | Llansantffraid V.A. School | Powys – Powys |
| 6663316 | Llanbedr V.A. School | Powys – Powys |
| 6663317 | Archdeacon Griffiths V.A. Primary School | Powys – Powys |
| 6665200 | Ysgol Gynradd Llanerfyl | Powys – Powys |
| 6672284 | Ysgol Gymunedol Cilcennin | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672285 | Ysgol Gymunedol Ciliau Parc | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672288 | Ysgol Gymunedol Dihewyd | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672289 | Ysgol Gymunedol Felinfach | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672291 | Ysgol Gymunedol Llanarth | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672293 | Ysgol Gymunedol Llannon | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672298 | Ysgol Gymunedol Talgarreg | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672303 | Ysgol Gymunedol Comins Coch | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672308 | Ysgol Gymunedol Llanfarian | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672309 | Ysgol Gymunedol Llanfihangel-Y-Creuddyn | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672310 | Ysgol Gymunedol Llangwyryfon | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672311 | Ysgol Gymunedol Llanilar | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672312 | Ysgol Gymunedol Mynach | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672313 | Ysgol Gymunedol Penllwyn | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672315 | Ysgol Gymunedol Syr John Rhys | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672316 | Ysgol Gymunedol Rhydypennau | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672317 | Ysgol Gymunedol Talybont | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672320 | Ysgol Gymunedol Beulah | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672323 | Ysgol Gymunedol Llechryd | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672324 | Ysgol Gymunedol Penparc | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672345 | Ysgol Gymunedol Trewen | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672353 | Ysgol Gymunedol Pontrhydfendigaid | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672362 | Ysgol Gymunedol Craig Yr Wylfa | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672363 | Ysgol Gymunedol Penrhyncoch | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672366 | Ysgol Gymunedol Y Dderi | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672367 | Ysgol Gymunedol Cenarth | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672369 | Ysgol Bro Sion Cwilt | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672371 | Ysgol Gynradd T Llew Jones | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672372 | Ysgol Rhos Helyg | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6672373 | Ysgol Dyffrfryn Cledlyn | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6673058 | Ysgol Wirfoddol Myfenydd | Sir Ceredigion - Ceredigion |
| 6682209 | Ysgol Gymunedol Eglwyswrw | Sir Benfro - Pembrokeshire |
| 6682223 | Ysgol Brynconin | Sir Benfro - Pembrokeshire |
| 6682231 | Ysgol Llanychllwydog | Sir Benfro - Pembrokeshire |
| 6682233 | Ysgol Gymunedol Maenclochog | Sir Benfro - Pembrokeshire |
| 6682250 | Puncheston C.P. School | Sir Benfro - Pembrokeshire |
| 6682253 | St Dogmaels C.P. School | Sir Benfro - Pembrokeshire |

| | | |
|---|---|---|
| 6682254 | Wolfscastle C.P. School | Sir Benfro - Pembrokeshire |
| 6682261 | Templeton C.P. School | Sir Benfro - Pembrokeshire |
| 6682266 | Tavernspite C.P. School | Sir Benfro - Pembrokeshire |
| 6682270 | Ysgol Gymunedol Croesgoch | Sir Benfro - Pembrokeshire |
| 6682273 | Roch C.P. School | Sir Benfro - Pembrokeshire |
| 6682384 | Coastlands C.P. School | Sir Benfro - Pembrokeshire |
| 6682385 | Ysgol Clydau | Sir Benfro - Pembrokeshire |
| 6682390 | Ysgol y Frenni | Sir Benfro - Pembrokeshire |
| 6683035 | Cilgerran V.C. School | Sir Benfro - Pembrokeshire |
| 6683036 | Cosheston V.C. School | Sir Benfro - Pembrokeshire |
| 6683050 | Spittal V.C. School | Sir Benfro - Pembrokeshire |
| 6683058 | Ger Y Llan V.C. School | Sir Benfro – Pembrokeshire |
| 6683315 | St.Aidan's V.A. School | Sir Benfro – Pembrokeshire |
| 6683321 | St Oswalds V.A. School | Sir Benfro – Pembrokeshire |
| 6692002 | Maesybont C.P. School | Sir Gaerfyrddin – Carmarthenshire |
| 6692014 | Ysgol Gynradd Peniel | Sir Gaerfyrddin – Carmarthenshire |
| 6692034 | Bancyfelin C.P. School | Sir Gaerfyrddin – Carmarthenshire |
| 6692037 | Meidrim C.P. School | Sir Gaerfyrddin – Carmarthenshire |
| 6692065 | Talley C.P School | Sir Gaerfyrddin – Carmarthenshire |
| 6692067 | Cwrt Henri C.P. School | Sir Gaerfyrddin – Carmarthenshire |
| 6692080 | Llangadog C.P. School | Sir Gaerfyrddin – Carmarthenshire |
| 6692104 | Ysgol Gynradd Brynsaron | Sir Gaerfyrddin – Carmarthenshire |
| 6692109 | Llanpumsaint C.P. School | Sir Gaerfyrddin – Carmarthenshire |
| 6692119 | Llanmiloe C.P. School | Sir Gaerfyrddin – Carmarthenshire |
| 6692166 | Ysgol Llansteffan | Sir Gaerfyrddin – Carmarthenshire |
| 6692170 | Abernant C.P. School | Sir Gaerfyrddin – Carmarthenshire |
| 6692180 | Ysgol Beca | Sir Gaerfyrddin – Carmarthenshire |
| 6692182 | Ysgol Gynradd Hafodwenog | Sir Gaerfyrddin – Carmarthenshire |
| 6692184 | Llanybydder C.P. School | Sir Gaerfyrddin – Carmarthenshire |
| 6692185 | Ysgol y Fro | Sir Gaerfyrddin – Carmarthenshire |
| 6692187 | Cynwyl Elfed School | Sir Gaerfyrddin – Carmarthenshire |
| 6692384 | Ysgol Griffith Jones | Sir Gaerfyrddin - Carmarthenshire |
| 6692386 | Ysgol Carreg Hirfaen | Sir Gaerfyrddin - Carmarthenshire |
| 6692387 | Ysgol Cae'r Felin | Sir Gaerfyrddin - Carmarthenshire |
| 6692389 | Ysgol Bro Brynach | Sir Gaerfyrddin - Carmarthenshire |
| 6693000 | Abergwili V.C. School | Sir Gaerfyrddin - Carmarthenshire |
| 6693002 | Tremoilet V.C. School | Sir Gaerfyrddin - Carmarthenshire |
| 6693003 | Laugharne V.C. School | Sir Gaerfyrddin - Carmarthenshire |
| 6693013 | Ferryside V.C. School | Sir Gaerfyrddin - Carmarthenshire |
| 6693026 | Ysgol Gynradd Wirfoddol Llanllwni | Sir Gaerfyrddin - Carmarthenshire |
| 6693307 | Ysgol Wirfoddol Penboyr | Sir Gaerfyrddin - Carmarthenshire |
| 6702133 | Ysgol Gynradd Felindre | Sir Abertawe - Swansea |
| 6702167 | Penclawdd C.P. School | Sir Abertawe - Swansea |
| 6702217 | Knelston C.P. School | Sir Abertawe - Swansea |

| | | |
|---|---|---|
| 6722275 | Tynyrheol C.P. School | Sir Pen y bont - Bridgend |
| 6732126 | Llancarfan C.P. School | Sir Morgannwg - The Vale of Glamorgan - |
| 6742269 | Tref-y-Rhyg C.P. School | Sir Rhondda Cynnon Taf - Rhondda Cynon Taf |
| 6762108 | Fochriw C.P.School | Sir Caerffili - Caerphilly |
| 6792305 | Cross Ash C. P. School | Sir Fynwy - Monmouthshire |